Hysbysiad nad oes angen cofrestriad/trwydded mwyach

Rhentu Doeth Cymru
Rent Smart Wales

Adran 1

Dywedwch wrthym pam nad oes angen cofrestriad/trwydded Rhentu Doeth Cymru mwyach. Os yw'r landlord neu'r asiant wedi marw, cwblhewch y ffurflen 'Hysbysiad o farwolaeth landlord/asiant' a geir yma: www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/resource-library

☐ **Cofrestriad a Thrwydded:** Nid oes angen y cofrestriad na'r drwydded mwyach gan nad wyf yn landlord annedd sy'n destun, neu'n cael ei marchnata neu ei chynnig i'w gosod dan, denantiaeth ddomestig yng Nghymru mwyach, ac nad wyf yn cynnal gweithgareddau gosod a/neu reoli yn ôl diffiniad Rhan 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 mwyach. Mae diffiniad o weithgareddau gosod a rheoli i landlordiaid ac asiantiaid i'w weld yma: www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/faqs
Cwblhewch Adrannau 1.1, 1.2 a 2

☐ **Cofrestriad yn unig:** Nid oes angen y cofrestriad mwyach gan nad wyf yn landlord annedd sy'n destun, neu'n cael ei marchnata neu ei chynnig i'w gosod dan, denantiaeth ddomestig yng Nghymru mwyach. **Cwblhewch Adrannau 1.1 a 2**

☐ **Trwydded yn Unig:** Nid oes angen y drwydded mwyach gan nad wyf yn cynnal gweithgareddau gosod a/neu reoli yn ôl diffiniad Rhan 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 mwyach.
Cwblhewch Adrannau 1.2 a 2

☐ **Corff Corfforaethol wedi'i Ddiddymu:** Nid oes angen y cofrestriad a/neu'r drwydded mwyach gan fod y landlord a/neu'r asiant yn gorff corfforaethol, sydd wedi'i ddiddymu.
Cwblhewch Adrannau 1.3 a 2

Adran 1.1 - Nid oes angen cofrestriad mwyach

Enw	Teitl	Enw cyntaf	Enw/enwau canol
	Cyfenw		
Dyddiad geni	(DD/MM/BBBB)		
Cyfeiriad gohebu	Cod post ☐☐☐☐☐☐☐		
Math y cofrestriad	Unigol ☐ Ar y Cyd ☐ Elusen ☐ Ymddiriedolaeth ☐ Corff corfforaethol ☐	**Rhif cofrestru**	*#RN-*

A ydych chi'n berchen ar eiddo rhent yng Nghymru sy'n parhau i gael eu gosod ar denantiaeth ddomestig?

Ydw ☐
Nac ydw ☐

Os ydych, bydd angen eich cofrestriad landlord arnoch o hyd ac ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd. Os oes angen i chi ddileu eiddo o'ch cofrestriad landlord, gallwch wneud hyn drwy fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein, neu drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt a geir ar dudalen 5 y ffurflen hon. Os na, ewch ymlaen i adran nesaf y ffurflen.

Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English

Adran 1.2 - Nid oes angen trwydded mwyach

Cwblhewch yr adran hon os nad oes angen eich trwydded Rhentu Doeth Cymru arnoch mwyach gan nad ydych yn cyflawni gweithgareddau gosod a/neu reoli yn ôl diffiniad Rhan 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 mwyach.

Enw

Teitl

Enw cyntaf

Enw/enwau cyntaf

Cyfenw

Dyddiad geni (DD/MM/BBBB)

Cyfeiriad gohebu

Cod post

Math y drwydded

Landlord ☐ Asiant ☐

Rhif y drwydded

#LR-

A ydych chi'n berchen ar eiddo rhent yng Nghymru sy'n parhau i gael eu gosod ar denantiaeth ddomestig?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych, bydd angen eich cofrestriad landlord arnoch o hyd. Rhaid i chi sicrhau bod eich cofrestriad landlord yn cael ei ddiweddaru a bod unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud o fewn 28 diwrnod. Os na, ewch ymlaen i adran nesaf y ffurflen.

Os ydych, rhowch gyfeiriad pob eiddo rhent a manylion y landlord/asiant newydd ar gyfer pob eiddo (cewch ddefnyddio taflen ar wahân os oes angen)

Cyfeiriad eiddo 1

Cod post

Enw'r landlord/asiant newydd

Enw'r cwmni

Cyfeirnod y drwydded

Cyfeiriad eiddo 2

Cod post

Enw'r landlord/asiant newydd

Enw'r cwmni

Cyfeirnod y drwydded

Cyfeiriad eiddo 3

Cod post

Enw'r landlord/asiant newydd

Enw'r cwmni

Cyfeirnod y drwydded

Os ydych yn cydsynio i ddiddymu'r drwydded uchod, rhaid i chi beidio â chyflawni gwaith gosod neu reoli eiddo mewn unrhyw eiddo rhent yng Nghymru sy'n destun, neu sy'n cael ei farchnata neu ei osod dan, denantiaeth ddomestig a bydd dyletswydd yn parhau i gofrestru unrhyw annedd y mae'r unigolyn uchod yn landlord arni. **Mae methu â chydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol hyn yn drosedd a gallai arwain at Hysbysiad Cosb Benodedig o hyd at £250 neu ddirwy ddiderfyn.**

A oes unrhyw sylwadau gennych yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â diddymu eich trwydded Rhentu Doeth Cymru?

Oes ☐ Nac oes ☐

Mae sylwadau'n cynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol yr hoffech iddi gael ei hystyried cyn i Rhentu Doeth Cymru benderfynu diddymu'r drwydded hon.

Os oes, rhowch fanylion y sylwadau (cewch ddefnyddio taflen ar wahân os oes angen)

Rhowch eich llofnod a'r dyddiad isod i gydsynio i ddiddymu eich trwydded Rhentu Doeth Cymru.

Enw mewn priflythrennau

Llofnod

Dyddiad

Wrth dderbyn eich cydsyniad, bydd Rhentu Doeth Cymru yn diddymu'r drwydded dan Adran 25 Deddf Tai (Cymru) 2014. Ar ôl diddymu eich trwydded, byddwch yn derbyn llythyr penderfynu ffurfiol yn rhoi gwybod i chi fod y broses ddiddymu wedi'i chwblhau.

Bydd gennych hawl i apelio yn erbyn diddymu eich trwydded, a gellir gwneud hynny i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl, y gellir cysylltu ag ef yn Swyddfa Tribiwnlysoedd Cymru, Oak House, Parc Cleppa, Celtic Springs, Casnewydd, NP10 8BD.

Ewch ymlaen i Adran 2

Adran 1.3 - Corff corfforaethol wedi'i ddiddymu (i'w chwblhau gan gyfarwyddwr/cyflogai'r corff corfforaethol)

Cwblhewch yr adran hon dim ond os ydych yn rhoi gwybod i Rhentu Doeth Cymru fod y landlord/asiant yn gorff corfforaethol sydd bellach wedi'i ddiddymu.

Enw'r corff corfforaethol	
Rhif cofrestru Tŷ'r Cwmnïau	
Cyfeiriad swyddfa cofrestredig	Cod post ☐☐☐☐☐☐☐
Dyddiad diddymu'r corff corfforaethol	(DD/MM/BBBB)
Math y cofrestriad	Unigol ☐ Corff corfforaethol ☐ Elusen ☐ Ar y Cyd ☐ Ymddiriedolaeth ☐ Dim yn berthnasol ☐
Rhif cofrestru	#RN- Mae'r cyfeirnod hwn i'w weld ar y dystysgrif gofrestru.
Math y drwydded	Landlord ☐ Asiant ☐ Ddim yn berthnasol ☐
Rhif y drwydded	#LR- Mae'r cyfeirnod hwn i'w weld ar amodau'r drwydded.

A oedd y landlord/asiant yn berchen ar unrhyw eiddo rhent yng Nghymru a oedd yn cael eu gosod ar denantiaeth ddomestig?

Oedd ☐ Nac oedd ☐

Os oedd, a ydy'r eiddo hyn yn dal i gael eu gosod ar denantiaeth ddomestig?

Ydyn ☐ Nac ydyn ☐ Ddim yn hysbys (eiddo wedi'i werthu) ☐

Os ydyn, rhowch gyfeiriad pob eiddo rhent a manylion y deiliad trwydded newydd ar gyfer pob eiddo (cewch ddefnyddio taflen ar wahân os oes angen)

Cyfeiriad yr eiddo

Cod post ☐☐☐☐☐☐☐

Enw deiliad y drwydded newydd

Enw'r cwmni

Cyfeirnod y drwydded

Ewch ymlaen i Adran 2

Adran 2

Darllenwch y wybodaeth ganlynol yn ofalus:

Cofrestriad: Os ydych wedi dweud wrthym nad oes angen y cofrestriad mwyach ac wedi cadarnhau nad ydych yn berchen ar eiddo rhent yng Nghymru sy'n parhau i gael eu gosod ar denantiaeth ddomestig mwyach, caiff yr eiddo dan sylw eu tynnu o'ch cofrestriad landlord Rhentu Doeth Cymru a bydd yn cael ei ddadactifadu. Byddwch yn gallu ail-actifadu'r cofrestriad hwn ar gyfer yr un trefniant perchnogaeth, ar unrhyw adeg hyd at y dyddiad dod i ben.

Trwydded: Os ydych wedi dweud wrthym nad oes angen trwydded mwyach, ac wedi cadarnhau nad ydych yn cynnal gweithgareddau gosod a/neu reoli mewn eiddo rhent yng Nghymru a osodir ar denantiaeth ddomestig mwyach, ac wedi rhoi eich cydsyniad i'r drwydded gael ei diddymu, byddwn yn gwneud hynny. Ar ôl diddymu eich trwydded, byddwch yn derbyn llythyr penderfynu ffurfiol yn rhoi gwybod i chi fod y broses ddiddymu wedi'i chwblhau.

Corff Corfforaethol wedi'i ddiddymu: Os ydych wedi dweud wrthym fod corff corfforaethol wedi'i ddiddymu, byddwn yn dileu'r eiddo rhent o'r cofrestriad ac yn ei ddadactifadu. Byddwn yn dod â'r drwydded i ben ar y dyddiad y diddymwyd y corff corfforaethol. Os oes angen mwy o wybodaeth arnom am y landlord/asiant, byddwn yn cysylltu â'r person sydd wedi llenwi'r ffurflen hon.

Nodyn: Mae angen i unrhyw landlord sydd ag eiddo rhent yng Nghymru sy'n cael ei rentu ar denantiaeth ddomestig gofrestru. Rhaid bod gan eiddo sy'n cael eu gosod ar denantiaeth ddomestig yng Nghymru landlord neu asiant â thrwydded briodol i gyflawni gweithgareddau gosod a rheoli ynddynt. **Mae methu â chydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol hyn yn drosedd a gallai arwain at Hysbysiad Cosb Benodedig o hyd at £250 neu ddirwy ddiderfyn.**

Darllenwch y datganiad canlynol yn ofalus:

Rwyf i/Rydym ni yn datgan bod y wybodaeth yn y ffurflen hon yn gywir hyd eithaf fy/ein gwybodaeth. Rwyf i/rydym ni yn deall fy mod/ein bod yn troseddu os ydw/ydym yn rhoi gwybodaeth i'r awdurdod trwyddedu yn gysylltiedig ag unrhyw un o'i swyddogaethau dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 sy'n anwir neu'n gamarweiniol ac yr ydw/ydym yn gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol neu os ydw/ydym yn ddiofal ynghylch a yw'r wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol.

Rhaid llofnodi'r ffurflen hon gan y landlord os ydych wedi cwblhau adran 1.1, gan y landlord/asiant os ydych wedi cwblhau adran 1.2 neu gan y cyfarwyddwr/cyflogai os ydych wedi cwblhau adran 1.3.

Enw mewn priflythrennau

Landlord/asiant ☐ Cyfarwyddwr/cyflogai ☐

Llofnod Dyddiad

Dychwelwch y ffurflen wedi'i llenwi ar e-bost i **rhentudoethcymru@caerdydd.gov.uk** neu drwy'r post i **Rhentu Doeth Cymru, Blwch SP 1106, Caerdydd, CF11 1UA**

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch wrth lenwi'r ffurflen, cysylltwch â Rhentu Doeth Cymru:

Ffôn: 03000 133344
Ffurflen cysylltu â ni: www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/contact/ Post: Rhentu Doeth Cymru, Blwch SP 1106, Caerdydd, CF11 1UA